DATGANIAD I'R WASG / PRESS RELEASE (English version follows)

22 Ionawr 2010

UCAC yn croesawu datganiad gan y Gweinidog ar Addysg cyfrwng Cymraeg a'r agenda Trawsnewid

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) wedi croesawu datganiad y Gweinidog Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Leighton Andrews, yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr agenda Trawsnewid.

Medd Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC, "**Rydym yn croesawu'r pwyslais ar yr angen i'r agenda Trawsnewid weithio ochr yn ochr gyda'r Strategaeth Addysg Gymraeg. Mae'r Gweinidog yn cydnabod ei fod yn briodol i rai AALl sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn sefydliad sydd yn gallu cynnig holl brofiadau addysg (yn y dosbarth a thu hwnt), trwy gyfrwng y Gymraeg**. "

"**Mae UCAC yn croesawu'r datganiad ac yn pwyso ar Awdurdodau Lleol, wrth gynllunio am newid, i ystyried yn ofalus beth sydd yn briodol o ran natur ieithyddol yr ardal. Mae UCAC yn barod wedi gwrthwynebu cynlluniau Rhondda Cynon Taf i greu tair Canolfan dwyieithog ar gyfer darparu addysg ôl-16 a dileu darpariaeth ôl 16 ym mhob ysgol. Credwn y byddai cynllun o'r fath yn niweidio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, ac yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd addysgol disgyblion sydd yn dymuno astudio mewn sefydliad cyfrwng Cymraeg**."

"**Mae'n braf gweld y Gweinidog yn gwneud datganiad clir o gefnogaeth, nid yn unig i ehangu cyrsiau cyfrwng Cymraeg, ond hefyd i sicrhau darpariaeth mewn sefydliadau cyfrwng Cymraeg, lle mae hynny'n briodol. O ran sefyllfa Rhondda Cynon Taf, mae'r dystiolaeth yn glir, yn y De ddwyrain, ei bod hi'n addysgiadol bwysig i ddisgyblion gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg mewn sefydliad cyfrwng Cymraeg.**"

DIWEDD

Am fanylion pellach cysylltwch â:

Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol: 07787 573707 / Rebecca Williams, Swyddog Polisi: 07787 572180

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru | Ffôn: 01970 639950 | Ffacs: 01970 626765

ucac@athrawon.com www.athrawon.com

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

DATGANIAD I'R WASG / PRESS RELEASE

22 January 2010

UCAC welcomes the new Minister's statement on Welsh medium education and the transformation agenda

UCAC, the teachers' union, today welcomed the announcement by Leighton Andrews, the new Minister for Children, Education and Lifelong Learning concerning Welsh Medium Education and the Transformation agenda.

According to Elaine Edwards, UCAC's General Secretary the union welcomes the Minister's emphasis on the expectation that the Transformation agenda is intended to work alongside the Welsh Assembly Government's Welsh medium Education Strategy, that opportunities for learners to follow Welsh medium courses should be improved and that, where appropriate "*learners can access a school or college where the Welsh language is used for all activities.*"

"**UCAC welcomes this statement and calls on the LEAs, when planning for change, to consider carefully what is appropriate in terms of the linguistic nature of their communities. UCAC has already opposed Rhondda Cynon Taf's plans to centralise post 16 education within the LEA in three Bilingual Centres. We believe that such a move would have a damaging effect on Welsh medium education in Rhondda Cynon Taf and would deny young people the opportunity to study in a Welsh medium setting**."

"**We are pleased to see the Minister announcing support not only for increasing Welsh medium courses, generally, but also for ensuring that post-16 Welsh medium settings are available, where appropriate. The evidence is clear that in the South East it is crucial for young people to have access to Welsh medium education in a Welsh medium setting.**"

END

For further information contact:

Elaine Edwards, General Secretary: 07787 573707 / Rebecca Williams, Policy Officer: 07787 572180

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru | Ffôn: 01970 639950 | Ffacs: 01970 626765
ucac@athrawon.com www.athrawon.com